

PENNOD 1: PERTHYN

Genesis 23. 18

*Ac yn dy had di y bendithir holl genhedloedd y ddaear;
o achos gwrando ar fy llais i.*

Dywedir pe byddai Sais yn cwrdd â rhywun newydd, ei gwestiwn fyddai am natur ei waith neu ei fusnes. Dywed fy mhrofiad fod hynny'n ymhell o fod yn wirionedd cyffredinol. Awgrym rhai dramâu teledu yw bod pendeifgwyr yn rhoi mwy o sylw i dras a gwaed. Ymhlith cenedloedd eraill, gan gynnwys y Cymry, dechreuir yr ymgom gyda chwestiynau fel "O ble ydych chi'n dod? gyda "I bwy ydych chi'n perthyn?" yn dilyn. Ceir yr un consyrn am berthynas ymhlith yr Iddewon a hen genhedloedd eraill. Felly, disgrifia Paul ei hun fel "o hil Israel, o lwyth Benjamin, yn Hebrewr o dras Hebrëwyr."¹ Peth pwysig iawn iddynt oedd perthynas a rhaid i bob teulu a llwyth adnabod a datgan eu tras hynafol canys dyma sylfaen pob perthynas gymdeithasol.

Gosod allan tras Iesu trwy linach Joseff wna Mathew mewn pennod sydd fel arfer yn cael ei hanwybyddu'n llwyr ond sy'n haeddu gwell triniaeth. Dechreua gyda'r ymadrodd "Dyma restr achau Iesu Grist, Mab Dafydd, Mab Abraham" yng nghyfieithiad 2004, ond yn eiddo William Morgan, cewch "Llyfr cenedliad Iesu Grist....." sy'n debyg i'r Saesneg, "book of the generations." Dewisodd Mathew ddilyn patrwm Genesis 5, sy'n agor gyda'r geiriau: "Dyma llyfr cenedlaethau Adda, gyda rhestr o genhedlaethau sy'n arwain at Noa, "gŵr cyfiawn... perffaith yn ei oes, a rhiodd Noa gyda Duw."² Asiant Duw oedd Noa ar gyfer dechreuad newydd yr hil ddynol ar ôl y dilyw a chynddelw y Gwaredwr oedd i ddod.

Gosodir y cenedlaethau allan gan Mathew fel hyn: o Abraham i Ddafydd, gyda rhestr o batriarchiaid, o Ddafydd i'r Alltudiaeth, gan enwi'r brenhinoedd, a'r Alltudiaeth i ddyfodiad Crist, gan enwi unigolion. Awgrymir felly bod y datguddiad o gynllun iachawdwriaeth Duw yn parhau ar hyd holl gyfnodau hanes. Ceir dechreuad newydd ar ôl stori Tŵr Babel yng ngalwad Abraham gan gyrraedd ei uchafbwynt yn y brenin Dafydd. Dilynir hyn gan hanes y digwyddiadau sy'n arwain at yr Alltudiaeth. Dechreuad arall yw'r dyfodiad yn ôl o Fabilon a hwnnw'n cyrraedd ei uchafbwynt yn nyfodiad Crist. Gwerth nodi bod tri brenin wedi eu gadael allan o'r rhestr – Ahasiah, Joseff ac Amasiah – ond ni pherthyn y tri hyn i dŷ Dafydd ac, yn wir, yr oeddent yn ei wrthwynebu.

Yn gwbl annisgwyl, ceir pedair merch yn y rhestr: Tamar,³ Rahab y butain,⁴ Ruth y Foabes⁵ a Bethsheba, gwraig Ureia yr Hethiad.⁶ Y rhyfeddod

yw nad merched yn unig mo'r rhai hyn ond roeddent hefyd yn estroniaid, i gyd mewn perthynas anghyffredin. Fodd bynnag, pwyslais yr hanes yw bod pob un o'r pedair naill ai wedi cadw'r Cyfamod neu wedi dod i fewn iddo trwy weithred o ffydd. Cyfamod gras Duw yw sylfaen ei deyrnas, sy'n agored i ferched ac estroniaid ar dermau cyfartal, i baganiaid a phuteiniaid fel ei gilydd.

Bwriad Mathew yw dweud wrth ei ddarllenwyr, Cristnogion Iddewig, mai Iesu yw'r Brenin eneiniedig, o linach frenhinol Dafydd a Meseia Israel yn ôl addewid Duw. Disgynydd Abraham, tad y bobl, yw Iesu hefyd trwy yr hwn y bendithir holl genhedloedd y llawr. Mae'n awyddus i esbonio paham y caiff Cenedl-ddynion eu lle yn Nheyrnas Nefoedd ac ymhlith Pobl Dduw ar y ddaear. Paratoi'r ffordd y mae i gondemniad Ioan Fedyddiwr o'r Phariseaid a'r Sadwceaid. (Luc 3. 7-10): "A pheidiwch â meddwl a dweud wrthy ch eich hunain, 'Y mae gennym Abraham yn dad; oherwydd rwy'n dweud wrthy ch y gall Duw godi plant i Abraham o'r cerrig hyn.'" Wedyn, cronicle ddatganiad Iesu yn hanes gwas y canwriad (8. 5-13) "y daw llawer o'r dwyrain a'r gorllewin a chymryd eu lle yn y wledd gydag Abraham, Isaac a Jacob yn nherynas nefoedd. Ond caiff plant y deyrnas eu bwrw allan i'r tywyllwch eithaf..." Pwysleisia Mathew mai cofnod yw'r newyddion sydd ganddo o gyflawni amcanion tragwyddol Duw. Felly, difynna Eiseia 7. 14 ym mhennod 1. 22-23: "Wele, bydd yr wryf yn beichiogi, ac yn esgor ar fab, a gelwir ef Immanuel." Cyfeiria at yr Ysgrhythurau o leiaf deirgwaith yn ei ddwy bennod gyntaf er mwyn cadarnhau yr hyn a hawlia. Cewch hefyd yn Efengyl Mathew debygrwydd clos rhwng y ffoi i'r Aifft a dychwelyd wedyn a hanes Moses.⁷ Abertha Crist berthynas â Duw, ei deulu a'i barchusrwydd er mwyn pobl y cyrion, gan aberthu ei fywyd a'i berthynas a'i Dad hefyd yn y diwedd.

Mae Mathew yn agor ei efengyl gyda'r achau, tra bod Luc yn eu gosod rhwng Bedydd Iesu a'i demtiad yn yr anialwch. Gweithia Luc ei ffordd yn ôl o Joseff i Adda, trwy Nathan, mab llai pwysig i'w dad Dafydd, ac ymlaen wedyn at Shem, Noa a Seth at Adda. Awgrymir rhai mai ei bwrpas wrth wneud hyn yw tynnu sylw ei ddarllenwyr ar unwaith at Iesu. Tra bod y rhestrau rhwng Abraham a Dafydd yn debyg, gwahanol iawn ydynt rhwng Dafydd a Joseff; dim ond dau enw sy'n ymddangos yn y ddwy efengyl yn yr adran hon, sef Shealtiel a Serubbabel. Achoswyd cryn ddadlau ymhlith ysgolheigion gan y gwahaniaethau hyn ar hyd y canrifoedd, yn arbennig gan i'r fath fanylion cael eu cofnodi'n ofalus iawn gan ysgrifenyddion Iddewig. Engraifft o hyn yw'r teulu y clywais amdanynt yn Sefydliad Ecwmenaidd Tantur ger Jerwsalem yn 1989, pan soniwyd am deulu Iddewig yng Ngallilea nad ymadawodd a'i bentref erioed, sy'n olrhein eu achau yn ôl i dua 150 cyn Crist.

Mae rhestr Luc yn dechrau yn y trydedd pennod, adnod 23: "Yr oedd yn fab, yn ôl y dybiaeth gyffredin, i Joseff mab Eli..." Cawn broblem ar unwaith gan fod Mathew 1.16 yn gwneud y datganiad "Yr oedd Jacob yn dad i Joseff,

gŵr Mair, a hi roddodd enedigaeth i Iesu, a elwid yn Meseia.” Yn ôl un o ‘r ceisiadau cynnar, yr ateb i’r broblem hon yw trwy ddefnyddio’r traddodiad o “briodas Leferaidd: “os byddai brawd yn marw heb fab i’w ddilyn, byddai’i frawd yn priodi’r weddw er mwyn darparu meibion iddo i gario ymlaen enw a llinell y brawd ymadawedig.⁸ Gellid dadleu wedyn bod Joseff yn fab gyfreithlon Hele a fu farw ac yn fab naturiol Jacob. Yn ôl y ddamcaniaeth hon, dau frawd yw tadau-cu Joseff, sef Mathan o eiddo Mathew a Mathat yn efengyl Luc, a’r ddau wedi priodi yr un ferch. Felly Heli, mab Mathat yw tad cyfreithlon Joseff a Mathan yn dad biolegol iddo. Digon bosib fod y fath resymu yn ddibwys. Dywed Martin Luther mai Mathew sy’n cofnodi llinach Joseff tra mai llinach Mair sydd gan Luc. Awgrym Julius Affricanws⁹ yw bod Mathew yn dilyn y llinach fiolegol tra mai’r llinach gyfreithlon sydd gan Luc.

Saif yr efengylwyr ym mhatrwm yr hen fyd yn eu brwdfrydedd dros achau, patrwm sy’n aros mewn llawer rhan o’r byd. Gwelwyd y gallu i adrodd enwau’r hynafiaid fel prawf o berthynas, fel y bu yng Nghymru. Peth angenrheidiol i oroesiad oedd medru bod yn perthyn i NI a nid bod yn un ohonynt HWY. Yr oedd troi at yr achau hefyd yn sicrhau statws mewn cymdeithas. Yn Esra 2. 62 ceir hanes y chwilio am brawf o statws offeiriadol ar ôl dychwelyd o’r Alltudiaeth: “Chwiliodd y rhain am gofnod o’u hachau, ond methu a’i gael; felly cawsant eu hatal o’r offeiriadaeth.”

Er i’r ddau efengylydd geisio cyflwyno hanes, ymwna’r ddau â rywbeth llawer mwy. Awydd y ddau yw cyflwyno’r *cerygma*, sef cyhoeddi’r Newyddion Da. Nid un arall o’r hanner-duwiau paganaidd yw Iesu, ond gwir ddyn, gyda theulu dynol. Hefyd ef yw “Mab Dafydd”, rhywbeth â bwysleisr gan Luc a Mathew, sy’n ei ddisgrifio hefyd fel “Mab Abraham”. Dyma brif gonsyrn Mathew wrth iddo ddechrau’r achau gydag Abraham. I Fathew a’r darllenwyr lddewig, bod dynol yw Iesu, Mab Dafydd a Mab Abraham, tad yr holl bobl ond, yr un pryd, i Fathew, Mab Duw yw Iesu, y Crist/Meseia, Y Gwardwr â addawyd ac Immanuel, “Duw gyda ni.” Diddorol yw nodi bod Mathew yn defnyddio’r ymadrodd “Mab Dafydd” ddeg o weithiau, yn fwy na Marc a Luc gyda’i gilydd, tra bod y teitl yn absennol o efengyl Ioan.

Neges Luc wrth adrodd stori’r Geni yw mai Mab Mair yw Iesu, sydd hefyd o dŷ a llinach Dafydd a disgynydd Abraham, ond cawn ein harwain gan Luc yn ôl i Adda, “mab Duw” a’n tad ni oll. Mab y Dyn yw Iesu Grist a Gwardwr yr holl ddynoliaeth. Datganiad canolog Mathew a Luc yw bod Iesu yn ddyn, yn Arglwydd a Gwardwr ac yn Fab Duw, Daeth i hebrwng plant Duw ar grwydro yn ôl i’w deulu, rhan o greadigaeth gadwedig.

Y mae yna le i greu bod yr ymdeimlad o fod yn perthyn wedi gwanhau dros y ganrif ddiweddfaf. Gwanhawyd cymunedau Cymreig gan colledion y Rhyfel Byd Cyntaf ac effaith y Dirwasgiad wedyn ac fe â pobl ifainc i ffwrdd i brifysgol a gwaith yn aml gan fethu â chael swyddi gartref. Er bod yr ymdeimlad

o berthynas a chymuned y gryfach yng nghymoedd glofaol y De a mannau tebyg na mewn ardaloedd mwy ffyniannus, hyd yn oed yma nid yw'n fel y bu. Consyrn mawr pob Nadolig yn ddiweddar yw bod miliwn o bensiynwyr yn treulio'r ŵyl mewn unigrwydd, tra bod llawer o'r tai newydd sy'n cael ei codi ar gyfer pobl ifanc sy'n dewis byw ar ei pen ei hunain. Mae clywed y fath straeon yn gwneud i mi deimlo'n ddiolchgar am fod yn perthyn i eglwys sy'n cynnig ymdeimlad o berthynas ond wedyn cofiaf brofiad diweddar o ddathlu'r Geni ar fore Nadolig mewn capel orlawn lle cafwyd yr ymdeimlad o fod yn deulu ond anwybyddwyd yr ymwelwyr o du allan yn llwyr.

Dduw ein Tad, daeth dy Fab Iesu Grist yn fod dynol i'n hawlio ni fodau dynol fel chwiorydd a brodyr iddo trwy ffydd.

Gwna ni'n un gydag ef, er mwyn i ni fwynhau dy gariad, a, fel y bu iddo yntau fyw, felly cawn ni hefyd fyw mewn lawen wasaneth fyn plant i t, er mwyn yr hwn sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, un Duw, yn awr ac yn wastad.

Cwestiynau i feddwl drostynt neu i'w trafod

Pa mor bwysig, yn arbennig i Gristion, yw'r ymdeimlad o bethyn i eraill?

Ymfalchiodd un ysgrifennydd eglwys am gyfarfod a ddenodd "y math iawn o bobl." Beth yw arwyddocâd i ni o bobl fel Tamar y butain, Ruth y Moabes, a Bethsheba sydd wedi'u cofrestru yn yr achau, neu Mair Magdalen, Mathew y casglwr trethi a bradwr a Seimon y Gwahanglwyf?

A all cymuned gwirioneddol Cristion fod yn anghroesawgar i ddiethriaid a rhai o du allan?